



**Ymateb i adolygiad thematig Estyn, sef
'Iach a hapus:
effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion'**

Teitl yr adroddiad:

'Iach a Hapus: effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion'

Manylion yr adroddiad

Comisiynwyd yr adroddiad gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru i ganfod pa mor dda y mae ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru yn cefnogi iechyd a llesiant disgyblion.

Mae'r adroddiad yn adolygu a yw ysgolion ledled Cymru yn defnyddio dull gweithredu ysgol gyfan i gefnogi iechyd emosiynol a llesiant disgyblion a pha mor dda y maent yn gwneud hynny. Mae hefyd yn cynnwys astudiaethau achos o arfer rhagorol ac arloesol a welwyd gan arolygwyr.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Mae gan tua dwy o bob tair ysgol gynradd a thraean o ysgolion uwchradd yng Nghymru agwedd ysgol gyfan, gynhwysol at gefnogi iechyd a llesiant disgyblion. Nod yr ysgolion hyn yw sicrhau bod profiad ysgol y disgyblion o ddydd i ddydd yn gyson â'r negeseuon a roddir am iechyd a llesiant mewn gwersi, gwasanaethau ac ym mholisiâu'r ysgol. Maent yn datblygu disgyblion i fod yn unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas – un o bedwar diben y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru.

Mae nifer o agweddau cryf i gefnogaeth y mwyaf o ysgolion eraill i iechyd a llesiant disgyblion, er nad ydynt yn gweithredu yn gyfan gwbl ar lefel yr ysgol gyfan.

Rheswm allweddol pam mae ysgolion uwchradd yn cefnogi iechyd a llesiant disgyblion yn llai llwyddiannus nag ysgolion cynradd yw'r gwahaniaeth rhwng y negeseuon sy'n cael eu rhoi a'r profiad a gaiff disgyblion. Hefyd, mae'r newidiadau a ddaw yn sgil y glasgoed yn ei gwneud yn fwy heriol i ysgolion uwchradd gefnogi iechyd a llesiant disgyblion.

Mae arweinwyr yn gyfrifol am hybu llesiant staff, amddiffyn staff rhag baich gwaith gormodol a sicrhau eu bod yn ddiogel yn y gwaith. Mae ysgolion sy'n cefnogi llesiant disgyblion yn effeithiol yn tueddu i gefnogi llesiant staff yn gryf hefyd.

Mae cynnwys disgyblion yn ystyrion mewn gwerthuso a datblygu gwaith ysgol i gefnogi'u iechyd a'u llesiant yn ffactor allweddol ar gyfer llwyddiant. Mae ymdeimlad disgyblion o berthyn ac o werth yn aml wedi'i wreiddio yn y graddau y teimlant fod staff yn poeni amdanynt, yn cymryd amser i ddod i'w hadnabod, ac yn gwrando ar eu barn.

Mae ansawdd cydberthnasau rhwng staff a disgyblion a rhwng disgyblion a'u cymheiriaid yn ffactor hanfodol o ran a yw disgyblion yn ffynnu yn yr ysgol ai peidio. Dywed disgyblion fod gweithredoedd syml, fel athrawon yn gwenu arnynt ac yn eu cyfarch wrth eu henw, a chymryd rhan mewn sgwrs gadarnhaol ar ddechrau'r diwrnod ysgol, yn eu helpu i setlo ac i deimlo eu bod yn cael gofal, tra bod yr ychydig athrawon sy'n gweiddi ar ddisgyblion, yn codi cywilydd arnynt neu'n eu trin yn annheg, yn niweidio'u hymdeimlad o lesiant.

Mewn ychydig o ysgolion, mae arweinwyr yn dirprwyo cyfrifoldeb am iechyd a llesiant yn ormodol i un aelod staff, neu dîm bach o staff. Mae'r ysgolion hyn yn colli'r ymdeimlad bod iechyd a llesiant yn gyfrifoldeb ar bawb, ac yn rhoi'r argraff i ddisgyblion nad yw pawb yn malio amdanynt.

Mae pob ysgol yn darparu profiadau dysgu sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant, gan gynnwys addysg gorfforol ac addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Mae ysgolion cynradd yn tueddu i ddarparu profiadau o ansawdd gwell mewn ABCh ac mae ysgolion uwchradd yn tueddu i ddarparu profiadau o ansawdd gwell mewn addysg gorfforol. Fodd bynnag, nid yw ysgolion cynradd ar y cyfan yn addysgu addysg rhyw a pherthynas yn dda, ac nid yw ysgolion uwchradd yn neilltuo digon o amser i addysg gorfforol wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn.

Mae'r holl ysgolion cynradd ac uwchradd yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i gynorthwyo disgyblion ag anghenion penodol sy'n gysylltiedig â'u hiechyd a'u llesiant. Mae effeithiolrwydd y strategaethau hyn yn dibynnu'n helaeth ar ansawdd y berthynas rhwng y staff a'r disgyblion dan sylw.

Yn ogystal â'u gwaith eu hunain, mae pob ysgol yn gweithio gyda staff o amryw o asiantaethau allanol, fel cwnselwyr, nyrsys, swyddogion yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr ieuencid. Mae'r gwaith amlasiantaeth hwn ar ei fwyaf effeithiol wrth gefnogi iechyd a llesiant disgyblion pan fo'r naill barti a'r llall yn ymddiried yn ei gilydd ac yn deall sut orau i gydweithio er lles pennaf y disgyblion. Yn yr un modd, mae gwaith ysgolion gyda rhieni ar ei orau pan fo ysgolion wedi gweithio i ennill eu hyder ac yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni.

Mae disgyblion yn feirniadol o doiledau ysgol nad ydynt yn hygyrch, yn lân nac yn ddiogel. Roedd disgyblion mewn tua hanner yr ysgolion a holwyd – ysgolion uwchradd yn bennaf – wedi mynegi pryder ynghylch toiledau. Roedd y pryderon a godwyd yn cynnwys diffyg glendid yn gyffredinol, cyfleusterau ar gau, cloeon ar goll o ddrysau'r ciwbiclau neu ddim yn gweithio, diffyg cyfleusterau gwaredu darpariaeth mislif, diffyg dŵr poeth a sebon, a threfniadau anaddas ar gyfer disgyblion trawsryweddol.

Ychydig o athrawon sy'n ymuno â'r proffesiwn â hyfforddiant cefndirol sylweddol ym maes datblygiad plant neu'r glasoed, nac ynghylch sut orau i gefnogi iechyd a llesiant plant. Dim ond lleiafrif o staff mewn ysgolion sydd o'r farn bod yr hyfforddiant neu'r arweiniad a gawsant ar y cychwyn neu mewn swydd wedi'u helpu i gynorthwyo disgyblion â'u llesiant a'u hiechyd meddwl.

Sylw cyffredinol

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â chanfyddiadau'r adolygiad hwn sy'n cefnogi datblygu dull ysgol gyfan o roi sylw i lesiant emosiynol a meddyliol. Mae hyn yn gyson â'r cyhoeddiad ym mis Medi 2018 y byddai'r Gweinidog Addysg a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y cyd yn cynnull Grŵp Gorchwyl a Gorffen i'w cynghori ar y ffordd orau i wella llesiant emosiynol a meddyliol mewn ysgolion drwy feithrin dull ysgol gyfan o weithredu. Mae hyn yn gwneud ysgolion yn ganolog i'w cymunedau, lle mae myfyrwyr, athrawon a staff eraill yr ysgol, ynghyd â darparwyr gwasanaethau statudol, rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach yn cydweithio i fodloni anghenion emosiynol ac iechyd meddwl pobl ifanc.

Mewn perthynas â'r argymhellion unigol:

Dylai Llywodraeth Cymru:

A9 - Sicrhau bod y dulliau atebolrwydd a ddefnyddir yn y system addysg yn rhoi pwys ar iechyd a llesiant disgyblion.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Derbyn: Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn canfyddiadau adroddiad Estyn.

Rhan o waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar y cyd yw llunio canllawiau cenedlaethol a thempled (i'w datblygu ar y cyd ag ysgolion mewn pryd i ymgynghori yn eu cylch erbyn diwedd 2019) i helpu ysgolion lunio eu cynlluniau llesiant eu hunain. Byddwn yn disgwyl i'w cynlluniau gynnwys gwybodaeth ynghylch dulliau gweithredu a ddefnyddir i sicrhau atebolrwydd a hefyd fod gwaith hunanasesu'n digwydd yn rheolaidd.

Mae'r adnoddau newydd i ysgolion ar gyfer gwelliant parhaus (y Pecyn Cymorth Hunanwerthuso) yn cynnwys elfen ynghylch llesiant. Bydd y fframwaith atebolrwydd drafft yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddefnyddio set lawer ehangach o ddata i asesu eu holl waith, gan gynnwys llesiant, gan roi llai o bwyslais ar set gyfyng o ddangosyddion. Dylai hyn yn ei dro gael effaith lesol ar lesiant staff a disgyblion.

Dylai darparwyr addysg gychwynol athrawon:

A8 - Sicrhau bod athrawon newydd wedi'u hyfforddi i ddeall datblygiad plant a'r glasod a'u bod wedi'u paratoi i gefnogi iechyd a llesiant disgyblion.

Sylw Llywodraeth Cymru:

Yn unol â chyflwyno'r cwricwlwm newydd, bydd llesiant yn rhan o'r maes llafur newydd o fis Medi 2019 ymlaen. Mae'r cwricwlwm ar gyfer Addysg Gychwynol Athrawon o dan delerau'r achrediad newydd yn cael ei ddatblygu gan brifysgolion yn barod ar gyfer ei gyflwyno o fis Medi 2019 ymlaen. Erbyn hyn, mae'n rhy hwyr i ddatblygu cynnwys newydd ystyrion ar gyfer y cwrs a'i gael yn barod ar gyfer ei gyflwyno i fyfyrwyr o fis Medi 2019 ymlaen. Fodd bynnag, rydym yn gweithio drwy Gyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon i ddatblygu deunyddiau a fydd yn cefnogi cyfoethogi'r cynnwys. Mae'n ddyddiau cynnar ar hyn o bryd, ond rydym yn rhagweld y bydd deunyddiau ar gael i'w defnyddio o fis Medi 2020 ymlaen.

Dylai awdurdodau lleol a chonsortiau rhanbarthol:

A6 - Gynorthwyo ysgolion i ddatblygu ymagwedd ysgol gyfan at iechyd a llesiant

A7 - Cefnogi gweithio effeithiol rhwng ysgolion ac asiantaethau eraill er lles pennaf plant a phobl ifanc a'u teuluoedd

Dylai ysgolion:

A1 - Ddatblygu ymagwedd drefnus, ysgol gyfan, sy'n cefnogi iechyd a llesiant pob disgybl

A2 - Cryfhau'r perthnasoedd rhwng staff a disgyblion a pherthnasoedd cymheiriaid rhwng disgyblion

A3 - Gwella ansawdd addysgu a phrofiadau dysgu o ran iechyd a llesiant, o fewn cwricwlwm eang a chytbwys
A4 - Cyfrif yn well am farn disgyblion ac ymchwil academaidd wrth ddatblygu'u dulliau o gefnogi iechyd a llesiant disgyblion
A5 - Sicrhau bod amgylchedd yr ysgol a'i gwasanaethau yn cefnogi iechyd a llesiant disgyblion

Sylw Llywodraeth Cymru:

Bydd Is-adran Cymorth i Ddysgwyr y Gyfarwyddiaeth Addysg yn ysgrifennu at awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i dynnu eu sylw at yr argymhellion a bennir ar eu cyfer ac ar gyfer ysgolion gan yr adroddiad hwn. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gweithgarwch yn cael ei nodi fel rhan o drefniadau adrodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol.

Manylion cyhoeddi

Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar 13 Mehefin 2019 a gellir ei weld ar wefan Estyn: <https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig>.



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru



ISBN digidol 978 1 83876 527 9
© Hawlfraint y Goron Mehefin 2019
WG38288